

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion Cyfarfod Hybrid Anghyffredin a gynhaliwyd ar 24 Ebrill, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards a N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr J. Aviet, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

1044 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

1045 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S.J. Haines.

1046 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2024 fel cofnod cywir.

1047 DATGANIADAU BUDDIANT –

Gwnaeth y Cynghorydd Ewan Goodjohn ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 4 ar yr Agenda – Gwaith i Drechu Tlodi a'r Argyfwng Costau Byw Presennol. Natur ei ddiddordeb oedd bod ei fam yn Gadeirydd canolfan gymunedol a oedd yn derbyn cyllid gofod cynnes y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad. Roedd hwn yn fuddiant personol, nid oedd yn rhagfarnu.

Dywedodd y Cynghorydd C.P. Franks ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 4 ar yr Agenda – Gwaith i Drechu Tlodi a'r Argyfwng Costau Byw Presennol. Natur ei ddiddordeb oedd ei gysylltiadau â Llyfrgell Dinas Powys, a fu'n rhan o'r fenter Mannau Cynnes. Roedd gan y Cynghorydd oddefeb i siarad yn unig ar faterion yn

ymwneud â Llyfrgell a Chanolfan Weithgaredd Dinas Powys (gan gynnwys ceisiadau grant) wrth gael eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Bro Morgannwg a Dinas Powys (paragraffau (ch), (dd), (e) a (f) o'r rheoliadau perthnasol).

1048 GWAITH I DRECHU TLODI A'R ARGYFWNG COSTAU BYW PRESENNOL (CAC) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyd-gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Swyddog Polisi, Strategaeth Gorfforaethol a Mewnwelediad, y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a oedd yn cael ei wneud ar draws y Cyngor a gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i fynd i'r afael â thlodi, ac i ymateb i'r argyfwng costau byw. Roedd golwg gyfannol wedi'i chynnal, gan ddefnyddio data ansoddol a meintiol.

Dangosodd y data fod tlodi i'w weld ar draws Bro Morgannwg a bod yr argyfwng costau byw yn parhau i achosi caledi, gyda phroblemau fforddiadwyedd cynyddol o ran bwyd, ynni a thai.

Dangosodd yr adroddiad ehangder y gwaith a wnaed i gefnogi pobl i gyflogaeth, helpu teuluoedd a phobl ifanc trwy gymorth ariannol a lles gan gynnwys cyfleoedd chwaraeon amrywiol yn ogystal â datblygu gwaith o fewn ysgolion i'w defnyddio fel hybiau cymunedol. Tynnodd yr adroddiad sylw at y gwaith o fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd drwy gefnogi prosiectau a oedd yn gwella mynediad at fwyd, i sicrhau llai o unigrwydd ac arwahanrwydd drwy gefnogi datblygiad mannau cymunedol ac i roi cymorth ariannol i unigolion trwy nifer o gynlluniau.

Roedd gwaith arall y tynnwyd sylw ato'n ymwneud ag inswleiddio cartrefi ac effeithlonrwydd ynni, hybiau cymdeithasol gyda mannau cynnes cymunedol, y tudalennau gwe cymorth costau byw a sefydlwyd ar wefan y Cyngor, cynllun gwirfoddoli Gwerth yn y Fro, cymorth gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin, cymorth ychwanegol yn ystod gwyliau'r haf i'r rhai a oedd yn derbyn Prydau Ysgol am Ddim (PYADd) a'r cynnydd mewn arian a ddyrannwyd i Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn (TTD) i reoli effeithiau prisiau rhent cynyddol yn y sector rhent preifat.

Rhoddodd yr adroddiad hefyd fanylion am y defnydd o'r gronfa costau byw wrth gefn a sefydlwyd fel rhan o gyllideb 2023-24, gan ddangos sut roedd y Cyngor yn sicrhau bod y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn cyd-fynd â blaenoriaethau craidd y Cyngor fel y nodwyd yn y Strategaeth Ariannol a oedd yn sail i ddatblygu cynigion cyllideb a gymeradwywyd yn ddiweddar. Roedd cyllid Ffyniant Gyffredin hefyd yn cefnogi nifer o brosiectau a fyddai'n helpu i dargedu tlodi a mynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng costau byw.

Cafodd nifer o sylwadau a chwestiynau eu codi gan y Pwyllgor, gan gynnwys:

- O ran ymholiadau'r Cadeirydd am ymdrechion y Cyngor i helpu cymunedau gwledig yn y Fro i gael mynediad at wasanaethau argyfwng ac i ymgysylltu ac annog mentrau cymdeithasol, esboniwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at ystod o wasanaethau a sefydlwyd yn y Fro wledig fel yn y Wig, Llanilltud Fawr a Sain Tathan ac ymdrechion y Cyngor i ymestyn y gwasanaethau hyn mewn

mannau eraill, gyda chyllid ychwanegol ar waith erbyn hyn. O ran mentrau cymdeithasol, cyfeiriwyd at y gwaith yr oedd y Cyngor yn ei wneud gyda Cwmpas i archwilio'r berthynas rhwng y Cyngor a'r trydydd sector, mentrau cymdeithasol a chynghorau tref a chymuned, a oedd yn cynnig cyfle i ddatblygu ymhellach ymateb a oedd yn cefnogi trigolion ledled Bro Morgannwg.

- Gwnaeth yr Is-gadeirydd nifer o sylwadau ac ymholiadau ynghylch gwaith cadarnhaol yr Hyrwyddwr Pobl Hŷn a Thîm Sy'n Dda i Bobl Hŷn y Cyngor ynghylch y Strategaeth Sy'n Dda i Bobl Hŷn, gwaith y Tîm Tai gyda Thenantiaid y Cyngor, y nifer a oedd yn ymddangos yn gymharol fach o gynlluniau costau byw a oedd yn dod drwodd, unrhyw ddiweddariad ar y Cynllun Cerdyn C a'r posibilrwydd o'r Cyngor yn parhau i roi cymorth ychwanegol yn ystod gwyliau'r haf i'r rhai a oedd yn derbyn PYADd. Mewn ymateb, roedd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yn awyddus i gynyddu nifer y cynlluniau i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, a chyfeiriodd yr adroddiad at y defnydd o Gronfa Costau Byw Wrth Gefn y Cyngor lle rhannwyd £25k mewn cyllid ymysg 31 cais (allan o 75 a dderbyniwyd), yn ogystal â chyfeirio at fathau eraill o gymorth. Wrth symud ymlaen, byddai adroddiadau'n tynnu sylw at yr hyn a oedd yn gynlluniau newydd neu'n gynlluniau cyfredol. O ran y Cynllun Cerdyn C nid oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol ar hyn o bryd, ond tynnwyd sylw at y gwaith a wnaed ar y cyd â'r swyddog newydd yn y rôl hon gan yr Is-gadeirydd. O ran cymorth i'r teuluoedd hynny a oedd yn derbyn PYADd, roedd trafodaethau ar y gweill i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor, ond ni chafwyd unrhyw sgysiau penodol ar ymestyn hyn i wyliau'r haf, ond roedd y Cyngor yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd i weld a ellid cynnig mwy o ddarpariaeth a chymorth wedi'u targedu drwy ysgolion lleol yn ystod gwyliau'r haf; byddai mwy o wybodaeth am hyn yn cael ei rhannu gyda'r Pwyllgor.
- Cododd y Cynghorydd Dr. Johnson nifer o bwyntiau, gan gynnwys yr angen am ddiweddariad i fformat yr adroddiad h.y. ei wneud yn haws ei ddilyn, yn llai 'eang' a defnyddio atodiad neu dabl i nodi hyd cynlluniau, sut y cawsant eu cyllido, eu cynnydd, eu canlyniadau, ac ati. Gofynnodd hefyd faint o'r Gronfa Costau Byw Wrth Gefn a oedd wedi'i gwario ac a oedd y Cyngor wedi siarad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac eraill am Lywodraeth Cymru yn tynnu cyllid PYADd ac yn dilyn ei chyfaddefiad yn yr Uchel Lys ei bod wedi torri ei chyfraith ei hun trwy beidio â darparu cyllid pellach ar gyfer talebau PYADd yn ystod gwyliau'r ysgol. Yn ogystal, cododd ymholiadau ynghylch TTD, gwariant ar daliadau cymunedol, ôl-ddyledion rhent ac 'ailfrandio' nifer o brosiectau a chynlluniau a oedd yn gysylltiedig â'r pwnc hwn a gofynnodd a oedd y rhain yn well neu'n waeth na'u hiteriadau blaenorol neu a oedd y Cyngor yn syml yn 'ailddyfeisio'r olwyn' trwy wneud hyn. O ran ailfrandio cynlluniau, roedd hyn yn rhan o ymdrech i gyfuno ac ailstrwythuro'r rhain mewn set o themâu a chanlyniadau cydlynol a fyddai hefyd yn bwydo i awgrym y Cynghorydd ar gyflwyniad/fformat yr adroddiad. Byddai hyn yn helpu i roi gwybodaeth i'r Aelodau yn y dyfodol fesul cynllun, sut y cawsant eu cyllido, beth oedd eu heffaith a'r gronoleg neu'r amserlen y tu ôl iddynt. O ran TTD, yr ymholiad ynghylch a oedd hyn yn cario drosodd ac o ran ôl-ddyledion rhent tenantiaid y Cyngor, byddai swyddogion Cyllid yn gofyn am fwy o wybodaeth a'i rhannu â'r Pwyllgor. Yn yr un modd, byddai'r ymholiad ar PYADd yn cael ei gymryd yn ôl at swyddogion Dysgu a Sgiliau i'w ateb. Lle

na ellid rhoi cyllid i brosiectau cymunedol oherwydd bod y £25k a ddyrannwyd wedi'i ddefnyddio, cafodd ymgeiswyr eu cyfeirio at gynlluniau neu ffynonellau cyllid eraill a allai gynorthwyo ac mewn sawl achos roedd hyn wedi bod yn llwyddiannus.

- Croesawodd y Cynghorydd Carroll gynnwys gwybodaeth am Ostyngiad y Dreth Gyngor a dywedodd ei bod yn bwysig i'r adroddiad ystyried effaith Treth Gyngor uwch ar drigolion ac aelwydydd, gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed ym Mro Morgannwg ac ar eu cyllid. Byddai hyn yn helpu i ganolbwyntio meddyliau yn y Cyngor i sicrhau bod arian yn cael ei wario'n effeithlon. Mewn ymateb, byddai sylwadau'r Cynghorydd yn cael eu cymryd yn ôl at y tîm perthnasol i edrych ar sut y gellid canolbwyntio'n fwy ar effaith y Dreth Gyngor mewn adroddiadau, gan gynnwys cyllidebau. Esboniwyd bod cynnwys y Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor oherwydd yr adborth gan y Pwyllgor hwn.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Loveluck-Edwards at Siarter Fudd-daliadau Cymru yr oedd y Cyngor ac Awdurdodau Lleol eraill Cymru wedi cofrestru ar ei chyfer ac at Gredyd Cynhwysol. Gofynnodd a ellid defnyddio'r Siarter i helpu i godi ymwybyddiaeth i drigolion naill ai mewn gwaith neu ddi-waith ynghylch pa fudd-daliadau y gallent eu hawlio yng ngoleuni'r argyfwng costau byw. Esboniwyd bod y Cyngor wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth i drigolion hawlio budd-daliadau fel Credyd Pensiwn. Gofynnid i'r Tîm Cyfathrebu yn y Cyngor gynyddu nifer y negeseuon ar hawliau trwy'r cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, ac ati. Adleisiodd y Cadeirydd bryderon y Cynghorydd ar effaith Credyd Cynhwysol ar rai o'i hetholwyr wrth geisio cynyddu eu horiau gwaith, ac ati, yn ogystal â'r heriau i bobl gael cymorth a chyngor gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r gwaith sy'n cael ei wneud o ran trechu tlodi a'r argyfwng costau byw a oedd yn her hollbwysig o fewn Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor 2023-24 a Chynllun Cyflawni Blynyddol newydd 2024-25.
- (2) BOD Siarter Budd-daliadau Cymru a Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn cael eu nodi.
- (3) NODI'r defnydd o'r gronfa costau byw wrth gefn i gefnogi'r rhai mewn angen.
- (4) BOD y Pwyllgor yn cefnogi ac yn cymeradwyo y dylid cyflwyno adroddiadau ar waith costau byw yn y dyfodol i'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel.
- (5) Y DYLID ailedrych ar fformat yr adroddiad er mwyn mynd i'r afael â'r sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor ar hyn.
- (6) BOD y Cabinet yn ystyried parhau i ddarparu cymorth ychwanegol yn ystod gwyliau haf yr ysgol i'r rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd).

Rhesymau dros yr argymhellion

(1-5) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(6) I'r Cabinet ystyried sylwadau'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel rhan o'i ystyriaeth o gynnydd gwaith i fynd i'r afael â thlodi a'r argyfwng costau byw.

1049 ADOLYGIAD DYSGU GOFYNNOL (CAC) –

Bwriad yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, oedd rhoi trosolwg i Aelodau'r Pwyllgor o'r dysgu gofynnol / gorfodol cyfredol a oedd yn cael ei roi fel cydymffurfiaeth yn y gweithle ar draws y Cyngor ac iddynt ystyried y dull arfaethedig o adolygu'r un peth. Fel Awdurdod Lleol a chyflogwr, roedd y Cyngor ar hyn o bryd yn cynnig nifer o fodiwlau o ddysgu gofynnol neu orfodol, yr oedd angen i weithiwr eu cwblhau fel rhan o'i broses brawf ac yn rheolaidd, a enwyd gan y Cyngor yn 'gydymffurfiaeth yn y gweithle'.

Ceisiodd yr adroddiad dynnu sylw at y ddarpariaeth gyfredol mewn perthynas â dysgu gofynnol / gorfodol a'r cyfraddau cwblhau ar gyfer modiwlau a oedd ar gael ar hyn o bryd.

Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at sut y ceisiodd y Cyngor gydymffurfio â gofynion rheoleiddio, lliniaru risgiau, a mynd i'r afael â heriau a oedd yn dod i'r amlwg trwy fandadau dysgu gorfodol wrth gydbwyso'r gofynion hyn ochr yn ochr â'r goblygiadau posibl ar gyfer ymgysylltu â gweithwyr, morâl ac effeithiolrwydd mandadu dysgu. Cyfeiriwyd hefyd at gyrraedd y gynulleidfa staff ofynnol mewn ffordd ddiddorol, gan gyfoethogi'r profiad dysgu a grymuso staff y Cyngor i fod y gorau y gallent fod i'w dinasyddion a'r cymunedau yr oedd y Cyngor yn eu gwasanaethu.

Yn ogystal, ceisiodd yr adroddiad fynd i'r afael â'r argymhelliad a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â chwythu'r chwiban, h.y. yr angen i gryfhau dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gweithwyr, ynghyd â pharodrwydd i adrodd am faterion, ynghylch chwythu'r chwiban.

Yn olaf, pwysleisiodd y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol fod cydymffurfiaeth yn y gweithle yn rhan o adolygiad mwy cyflawn o'r broses sefydlu, a fyddai'n cynnig gwell dealltwriaeth i staff newydd o feysydd allweddol y Cyngor, gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Cyflawni Blynnyddol, mecaneg cyfathrebu staff a'r broses ddemocrataidd. Helpodd y system hyfforddiant a dysgu iDev ar-lein ar gyfer staff newydd a chyfredol i fonitro cydymffurfiaeth a helpodd i sicrhau bod staff yn cwblhau 100% o fodiwlau ac e-ddysgu o'r fath er mwyn cwblhau eu cyfnod prawf.

Yn dilyn yr adroddiad, cafodd nifer o sylwadau a chwestiynau eu codi gan y Pwyllgor, gan gynnwys:

- Cododd y Cadeirydd statws Cyfarpar Sgrin Arddangos (CSA), hyfforddiant Cydraddoldeb a'r Gymraeg a gofynnodd a oeddent yn fodiwlau hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff newydd. Esboniwyd nad modiwlau penodol mohonynt ond eu bod yn rhan o'r broses sefydlu ehangach h.y. trafodwyd y meysydd hyn yn yr adran yn y broses sefydlu ynghylch gweithio i Gyngor Bro Morgannwg, yn ogystal â staff newydd yn cael eu cyfeirio at ddysgu pellach a phynciau fel y Gymraeg.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Carroll at yr angen i sicrhau, ar ddechrau'r broses sefydlu a'r dysgu gofynnol ar ôl hynny i staff y Cyngor, bod dull mwy 'gwasgarog' yn cael ei weithredu er mwyn osgoi unrhyw ymarferion 'ticio blwch' diangen. Mewn ymateb, dywedwyd bod y Cyngor yn mynd ati i geisio osgoi dull 'ticio blwch' o ran dysgu a hyfforddiant staff a symud i fwrdd o un dull sy'n addas i bawb drwy ddefnyddio dull mwy amlweddol o ran dysgu a hyfforddiant. O ran cwestiwn dilynol y Cynghorydd ar natur orfodol hyfforddiant asbestos i holl staff y Cyngor ac a oedd hyn yn adlewyrchu problem gydag asbestos yn y Cyngor, esboniwyd bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei adolygu gyda'r Tîm Iechyd a Diogelwch, ond ar hyn o bryd roedd yn parhau'n orfodol er mwyn i staff nodi asbestos pe baent yn dod ar ei draws yn ystod eu gwaith. Nid oedd hyn yn awgrymu bod asbestos yn adeiladau'r Cyngor, roedd dim ond yn rhagofal fel y gwelwyd mewn sefydliadau eraill.
- Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at swm y gwaith a gyflawnodd yr adran TGCh yn y Cyngor fel tîm cymharol fach ac fel rhan o'r hyfforddiant sefydlu byddai'n ddefnyddiol darparu mwy o ganllawiau a modiwlau TGCh 'sut i' fel rhan o'r broses sefydlu er mwyn codi ymwybyddiaeth o TGCh a defnyddio technoleg ddigidol yn fwy effeithiol. Esboniwyd bod hyn yn cael ei adolygu eisoes gan y Pennaeth Digidol ac roedd rhywfaint o hyfforddiant/dysgu perthnasol eisoes wedi'i ychwanegu at system ddysgu a hyfforddiant ar-lein y Cyngor (iDev) ynghylch TGCh, fel Seiberddiogelwch. Roedd y Cyngor hefyd yn gweithio ar gynnwys dysgu ynghylch awgrymiadau TGCh, yn ogystal â defnyddio meddalwedd a thechnoleg ddigidol yn fwy effeithlon.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr. Johnson at yr adolygiad o ddysgu gofynnol / gorfodol i'w gynnal fel rhan o Strategaeth Bobl y Cyngor, a gofynnodd pryd y byddai hyn yn dod i ben, sut y byddai hyn yn cael ei gyflwyno, a'r hyn y gellid ei wneud i sicrhau bod staff dim ond yn gwneud hyfforddiant gorfodol a oedd yn gwbl angenrheidiol ar gyfer eu rôl, er mwyn osgoi pwysau gwaith diangen arnynt. At hynny, a fyddai'r adolygiad yn rhoi mewn cyd-destun pa ddysgu a hyfforddiant gorfodol yr oedd angen i'r holl staff eu gwneud a'r meysydd hynny yr oedd dim ond angen i staff yn y tîm neu'r llif gwaith perthnasol eu gwneud. Esboniwyd y byddai'r adolygiad yn cael ei gwblhau yn yr hydref gobeithio, ac y byddai'n cwmpasu dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar swyddi o ddysgu gorfodol ac ati, yn ogystal â nodi pa ddysgu y byddai angen i'r holl staff ei wneud beth bynnag yw eu rôl waith. Byddai mwy o fanylion yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor yn yr hydref.
- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan bob Awdurdod Lleol yng Nghymru yr un hyfforddiant gorfodol neu hyfforddiant gorfodol tebyg, yr un gofynion dysgu ac, os felly, a ellid cyfuno'r rhain gyda'i gilydd neu gynnal dull gweithredu ar y cyd ag Awdurdodau Lleol eraill o ran hyfforddiant a dysgu er mwyn cyflawni arbedion maint ar gyfer amcanion hyfforddiant tebyg. Esboniwyd bod rhywfaint o waith dros dro wedi'i wneud ar hyn gydag Awdurdodau Lleol Cymru ac Awdurdodau Lleol eraill y DU, gyda ffrydiau hyfforddiant a dysgu

nad ydynt mor annhebyg hyd yn hyn, ond roedd angen casglu mwy o ddata ar hyn cyn y gellid llunio'r casgliadau a'r canlyniadau llawn.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI adroddiad yr Adolygiad Dysgu Gofynnol.
- (2) BOD y Cabinet yn ystyried y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r dull gweithredu arfaethedig a chwmpas y dysgu gorfodol/gofynnol ar gyfer staff y Cyngor:
 - Pwysigrwydd darparu mwy o fodiwlau a chanllawiau TGCh 'sut i' fel rhan o'r broses sefydlu er mwyn codi ymwybyddiaeth o TGCh a'r defnydd o dechnoleg ddigidol yn fwy effeithiol.
 - Er mwyn sicrhau, ar ddechrau'r broses sefydlu a'r dysgu gofynnol dilynol ar gyfer staff y Cyngor, y cymerwyd ymagwedd fwy 'camwahanol' er mwyn osgoi unrhyw ymarferion 'ticio blychau' diangen a lleihau'r effaith ar bwysau gwaith staff.
 - Edrych ar ddull gweithredu ar y cyd ag Awdurdodau Lleol eraill o ran hyfforddiant a dysgu er mwyn cyflawni darbodion maint ar gyfer amcanion hyfforddi tebyg.
- (3) NODI'r ymateb i argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â Chwythu'r Chwiban.
- (4) BOD adroddiad pellach yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn i farn y Pwyllgor gael ei hystyried gan y Cabinet.
- (3&4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

1050 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU GWIRFODDOL MORGANNWG (GGM) 2022/23 (SG) –

Amlinellodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Rachel Connor, cynrychiolydd o Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM), grynodedd i'r Aelodau o holl feysydd gweithgarwch GGM yn ystod 2022/23.

Ystyriodd yr adroddiad y cyflawniadau yn ystod y flwyddyn, datblygu gwasanaethau cynghori, gan gynnwys darparu cymorth un-i-un, ei rôl fel gwasanaeth gwybodaeth,

symud i gyfryngau cymdeithasol a digidol, yn ogystal â darparu gwasanaethau ymarferol ac nad ydynt yn ddigidol, h.y. argraffu dibynadwy.

Roedd elfen arall o waith GGM yn ymwneud â chyllido gwasanaeth gwybodaeth a roddodd gymorth i 81 o grwpiau drwy gydol y flwyddyn gyda £650k o gyllid wedi'i gofnodi i fod o ganlyniad i'r cyngor a'r wybodaeth a roddwyd gan GGM.

Roedd yr uchafbwyntiau eraill yn cynnwys: digwyddiadau cyllido amrywiol a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr o gyllidwyr gan roi cyngor gwerthfawr ar sail unigol i sefydliadau'r trydydd sector; pwysigrwydd parhaus cael gafael ar gyllid ac adnoddau a'r heriau sy'n gysylltiedig â hyn; manteision a gwerth gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r gwaith o lunio a darparu gwasanaethau; gwaith GGM tuag at ddod yn sefydliad sy'n deall dementia; y gwaith o amgylch ei wasanaeth a'i waith allgymorth gwirfoddoli; ei waith yn helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd (h.y. drwy'r prosiect Rhannu Bwyd) a'r defnydd o wahanol fannau cymunedol ledled Bro Morgannwg.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gofynnodd y Cadeirydd a oedd GGM yn gwneud unrhyw waith allgymorth i gymunedau mwy gwledig ym Mro Morgannwg, fel cynnig cyfleoedd gwirfoddoli iddynt neu os ddim, a allai GGM ystyried hyn yn y dyfodol. Esboniwyd bod GGM yn cynnig cyfleoedd i wirfoddoli i wahanol rannau o'r Fro, fel drwy ddefnyddio 'ffeiriau' gwirfoddoli, lle gwahoddwyd sefydliadau'r trydydd sector lleol i fynychu a sefydlu stondinau i drigolion lleol fynd draw i gofrestru ar gyfer gweithgareddau gwirfoddoli. Cafwyd cynnydd enfawr yn nifer y gwirfoddolwyr yn ystod y Pandemig, ond roedd y niferoedd bellach wedi lleihau; anogodd cynrychiolydd GGM yr Aelodau i helpu i roi cyhoeddusrwydd i fanteision gwirfoddoli a phwysigrwydd gwirfoddoli i drigolion lleol.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo,

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) 2022/23.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.